

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

2/10/2014

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Maer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothea Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Islwyn Pritchard-Jones

1. Estynnwyd croeso i bawb.
2. Derbyniwyd cyflwyniad gan Ms Diana Smith a fynegodd bod Cyfeillion Neuadd Buddug wedi ei ffurfio i gadw'r adeilad gan fod iddo'r potensial i'w ddefnyddio ar gyfer amrywiol weithgareddau. Rhoddodd wybod fod grŵp llywio wedi ei ffurfio a fydd yn cyfarfod yn fuan gyda Chyngor Gwynedd. Roedd yn chwilio am gefnogaeth Cyngor Tref Y Bala i'r ymgyrch. Diolchwyd i Ms Smith am ei chyflwyniad. Cytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf pan fydd y sefyllfa yn fwy eglur.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 4, 2014.
5. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Medi 4, 2014 nad oedd eisoes ar yr Agenda.
6. Materion y Clerc:
 - i. Trafodwyd data Gan Bwyll a chytunwyd i ofyn i'r Uned Mesur Cyflymder bresenoli ei hun ar nosweithiau Gwener a phrynhawniau'r Sul – yn arbennig yn ystod misoedd yr haf. **Gweithredu: Clerc**
 - ii. Trafodwyd prisiau arwyddion sy'n fflachio a chytunwyd i ofyn ymhellach am bris arwydd o'r math hwn y gellir ei symud o un lleoliad i'r llall. **Gweithredu: Clerc**
 - iii. Darllenwyd ymateb gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr parthed agor y fferyllfa ar wyl banc a chytunwyd i anfon ymhellach gan dynnu sylw fod gwerth fferyllfa ar agor yn ystod Gŵyl y Banc yn llawer mwy na chyflenwi presgripsiwn i gleifion. **Gweithredu: Clerc**
 - iv. Y Nadolig: Cytunwyd i ofyn i staff Cyngor Gwynedd osod y goleuadau ar y coed (ar ôl gwneud gwaith tocio) ond i ofyn i'r Frigâd Dân am gymorth i osod goleuadau ar y coed wrth gerflun Tom Ellis. Bydd y goleuadau newydd yn mynd ar goed sy'n gyfleus i gyflenwad trydan, ond bydd angen gofyn i rai busnesau am ganiatâd i gael trydan. Cytunwyd i dalu anfoneb 20/3/14. Cytunwyd i ofyn i'r cyflenwr arferol i ddarparu coed Nadolig i fusnesau'r Stryd Fawr, a chytunwyd ar y llythyr yn gwahodd siopau i addurno'u ffenestri at y Nadolig (Gwobr yn rhoddedig gan y Cyngor Tref.) **Gweithredu: Clerc**

- v. Priodoldeb codi'r Praesept i gynnal Canolfan Dwristiaeth: derbyniwyd cyngor gan Un Llais Cymru ac yng ngoleuni'r cyngor cytunwyd i barhau i ddilyn yr arfer o wneud cyfraniadau achlysurol wrth gefnogi hybu'r dref ar gyfer ymwelwyr.
- vi. Baw cŵn: mae'r neges wedi ei hanfon at y Swyddog Gorfodaeth parthed baw cŵn yn y cae wrth y llyn, llwybr y llyn a Heol Pensarn.
- vii. Y lloches bws – nid oes ateb wedi dod ynglŷn â'r cynnig i osod lloches yn Y Grŵn; mae ymholiadau wedi eu gwneud i Gyngor Gwynedd am osod lloches wrth y stop yn Heol Pensarn neu o flaen gorsaf yr heddlu, ond nid oes ateb wedi dod i law. Cytunwyd fod y safle o flaen y Llew Gwyn yn annerbyniol oherwydd y byddai'n golygu torri coeden. Cytunwyd i barhau i bwyso am atebion. **Gweithredu: Clerc**
- viii. Y Domen – mae cais am gyllid i drwsio'r wal wedi ei wneud gan Gyngor Gwynedd; yn y cyfamser mae'r mesurau diogelwch yn parhau. Cytunwyd i sicrhau fod y toriad a'r tocio olaf yn cael ei wneud cyn y gaeaf. Cytunwyd i adnewyddu'r faner ac i chwilio am faner o ansawdd cryfach at y dyfodol. **Gweithredu: Clerc, J C Williams**
- ix. Y Plac Dinesig – disgwylir adroddiad Islwyn Pritchard Jones.
- x. Stondinau beic - cytunwyd i ofyn i gyflenwyr lleol am brisiau. **Gweithredu: Clerc**
- xi. Y Wefan – derbyniwyd gwybodaeth fod y wefan bron yn barod. Holwyd am osod linc i wefan y Grŵp Twristiaid.

7. **Materion y Cynghorydd Sir:** Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod y setliad ariannol diweddar o Gaerdydd yn waeth na'r disgwyl; bydd pob Cyngor Sir bellach yn gorfod torri ar wasanaethau craidd megis yr henoed ac addysg. Mae Cyngor Gwynedd yn dymuno gwrando ar drethdalwyr ac ar eu barn am sut y gellir gwneud y toriadau a'r arbedion. Bydd cyfle i'r cyhoedd alw i fynegi barn yng Nghanolfan Henblas rhwng 1.30 a 4.30 neu i fynychu cyfarfod yn Ysgol y Berwyn rhwng 6.00 ac 8.00pm ar 3ydd o Dachwedd.

Mae Cyngor Gwynedd yn parhau gyda'r cynnig i uno'n wirfoddol gyda Môn.

Llongyfarchwyd Cake Crew am greu 30 o swyddi newydd yn Y Bala. **Gweithredu: Clerc**

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan yn parhau i gefnogi pawb sy'n gweithio'n galed i gadw'r gwasanaeth sinema yn Y Bala.

Bydd y Cynghorydd Dilwyn Morgan yn cynnal syrjery gyda'r Heddlu yng Nghanolfan Henblas rhwng 4.00 a 7.00pm ar 24/10/14 a bydd croeso i'r cyhoedd ddod i fynegi eu sylwadau.

8. **Materion Lleol y Cyngorwyr Tref:**

- a. Diogelwch wrth Ysgol Bro Tegid: mae'r Cynghorydd wedi bod ers dwy flynedd yn gohebu ac yn gweithredu i geisio cael llinellau melyn yn yr ardal hon; bydd yn cyfarfod y Swyddog unwaith eto yn fuan iawn. Cytunwyd i lythyr fynd at Adran y Prifffyrdd gan y Cyngor Tref. **Gweithredu: Cyngorydd Dilwyn Morgan, Clerc**
- b. Mae rhai busnesau yn y dref yn achlysurol yn gosod rhwystrau o flaen eu siopau gan gyfyngu ar gyfleoedd parcio. Cytunwyd i dynnu sylw'r Swyddog Gorfodaeth at hyn. **Gweithredu: Cyngorydd Dilwyn Morgan , Clerc**
- c. Mae'r palmant wrth y Post / Caffi'r Cyfnod yn beryglus o anwastad. Cytunwyd i dynnu sylw at hyn. **Gweithredu: Cyngorydd Dilwyn Morgan**

- d. Ardal Awel y Coleg: tynnwyd sylw at yr angen am wella'r palmentydd yn yr ardal i hyrwyddo mynediad i bobl hŷn wrth fynd am dro; hefyd mae angen mesurau i arafu plant ar gefn beic rhag iddynt ddod allan yn rhy fuan o flaen ceir. **Gweithredu:**
Cynghorydd Dilwyn Morgan a J C Williams

9. Nid oedd Adroddiad o gyfarfod Ardal Un Llais Cymru

10. Materion Cynllunio:

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol - copi i'w gael ar lein ac ar ffurf CD-Rom yn y Llyfrgell
- b. Cymeradwywyd Cais NP5/53/LB67Q am newidiadau mewnol a fydd yn ymgorffori cyn-uned manwerthu yn rhan o uned breswyl 3 yn Adeiladau'r Aran, 88-96 Stryd Fawr, Y Bala

11. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau fel a ganlyn:
- i. UHY (Cyfrifwyr): £420
- ii. Cyngor Gwynedd Anfoneb 008017B0038617Fam oleuadau Nadolig 2013: £216
- iii. SLCC (rhannu gyda Chynghorau eraill) – manylion y tro nesaf
- iv. Cyflog y Clerc am fis Medi 2014 - £331.35
- v. Gwefan VisitBala – cyfraniad o £200

12. Gohebiaeth

- i. *Cyngor Gwynedd:*
- 1) Derbyniwyd llythyr parthed toriadau a dosbarthwyd posteri am gyfarfodydd i'r cyhoedd gael leisio'u barn.
- 2) Derbyniwyd rhybudd statudol am aildrefnu addysg arbennig.
- 3) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu grŵp trafnidiaeth cymunedol Meirionnydd a chytunodd Cynghorydd Dilwyn Morgan, Dorothe Evans a'r Clerc i gynrychioli Cyngor Tref Y Bala ym Mhlas Tan y Bwlch ar 13/10/14.
- ii. *Un Llais Cymru:* cytunwyd i geisio trefnu hyfforddiant ar ddatganoli gwasanaethau ar y cyd gyda chynghorau eraill yr ardal. **Gweithredu: Clerc**
- iii. *Eraill: Derbyniwyd*
- 1) Gwahoddiad i noddi gwefan VisitBala : cytunwyd i gyfrannu £200 o nawdd gan ofyn am linc i Wefan y Cyngor.

- 2) Gwahoddiad i ymuno gyda SLCC: cytunwyd i wneud ar y cyd gyda Cyngorau Cymuned eraill
- 3) Llythyr o ddiolch am ymateb y Cyngor i ymholiad am drafnidiaeth gyhoeddus.
- 4) Cylchlythyr Tŷ'r Eos.
- 5) Cais gan y Free Press a'r Cambrian News i fynychu cyfarfodydd y Cyngor a derbyn Agenda – cytunwyd i hyn gan roi gwybod iddynt am Reolau Sefydlog y Cyngor. **Gweithredu: Clerc**
- 6) Derbyniwyd gwybodaeth am arolwg ar Ofal Strôc yng Ngogledd Cymru. Cytunodd y Cyngorwyr i ymateb yn unigol os oedd ganddynt farn neu wybodaeth ar y mater.
- 7) Derbyniwyd gwybodaeth am Grant datblygu Cymunedol Grŵp Cynefin

13. Asedau'r Cyngor – derbyniwyd adroddiadau:

- i. **Alun Price:** bydd sylw wedi ei roi i'r tarmac ar y llwybr ar fin y llyn a'r meinciau erbyn y cyfarfod nesaf.
- ii. Cytunodd **John C Williams** i osod fflagiau newydd; yn y cyfamser fe chwilir am rai o ansawdd mwy parhaol.
- iii. Y ffrâm wybodaeth ar Y Domen a phrisiau adnewyddu - cytunodd **Alun Price** i holi am adnewyddiad i'r wybodaeth a holi ar yr un pryd a oes ffrâm newydd ar gael gan y darparwr gwreiddiol. Ystyrir gofyn i grefftwyr lleol os nad oes un pwrpasol ar gael. Bydd angen toriad arall o'r tyfiant cyn y gaeaf. **Gweithredu: Clerc**

14. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cydlynnydd. Cyfeiriwyd at lwyddiant y Diwrnod Agored a mynegodd Dilwyn Jones ei ddiolch am y fraint o gael agor Canolfan Henblas ar y cyd gyda Dafydd Elis Thomas. Cytunwyd i ysgrifennu at Mari Jones Williams i fynegi diolch diffuant i bawb o Bartneriaeth Penllyn a fu mor weithgar yn sicrhau'r adnodd gwerthfawr hwn. **Gweithredu: Clerc**

Amser gorffen: 9.40pm